



Nant Cae-Dudwg – Gwaith Diogelu rhag Erydu (2022)

Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb i 11 eiddo preswyl, 3 eiddo masnachol ac asedau priffyrdd yn ardal Cilfynydd.

Crynodeb o'r Cynllun	
Ardal Risg Llifogydd Strategol	Pen Isaf Cwm Taf
Lleoliad	Nant Cae-Dudwg, Cilfynydd
Eiddo sy'n elwa	11 eiddo preswyl a 3 eiddo masnachol
Math o gynllun	Asefydlu Sianel Cwrs Dŵr
Cost	£248,000
Contractwr	DT Contracting
Statws	Wedi'i gwblhau
Dyddiad cwblhau'r cynllun	Chwefror 2022
Ffrwd Ariannu	Cynlluniau FCERM ar Raddfa Fach Llywodraeth Cymru



Cyn (Chwith) ac Ar ôl (Dde) Gwaith Adfer Sianel Cwrs Dŵr - Cynllun Lliniaru Llifogydd Nant Cae Dudwg 2022

Cefndir y Cynllun

Mae materion llifogydd hanesyddol sy'n gysylltiedig â chwrs dŵr cyffredin Nant Cae-Dudwg wedi bod yn destun nifer o ddigwyddiadau llifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y digwyddiadau mwyaf arwyddocaol oedd llifogydd ar 15 a 16 Chwefror 2020 yn dilyn Storm Dennis, lle bu llifogydd mewn 8 cartref hyd at ddyfnderoedd o 1.5 metr i 1.8 metr, yn gysylltiedig â'r cwrs dŵr yn gorlifo.

Mae Cilfynydd wedi'i nodi'n ardal sydd â pherygl llifogydd dŵr wyneb uchel a chyrsgau dŵr cyffredin, yn seiliedig ar fapiau Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae cymuned Cilfynydd hefyd wedi'i osod yn safle 128 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd cwrs dŵr cyffredin a dŵr wyneb ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR), a ddatblygwyd gan CNC i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol Cymru gyfan.

Disgrifiad o'r Cynllun

Nod y prosiect oedd adolygu cyflwr cwrs dŵr cyffredin Nant Cae-Dudwg a rhoi **mesurau rheoli atal erydu pellach ar waith**, yn dilyn y difrod a achoswyd yn ystod Storm Dennis ym mis Chwefror 2020. Roedd y gwaith yma yn ychwanegol at Gynllun Lliniaru Llifogydd Nant Cae-Dudwg 2014.

Roedd y cynllun yn cynnwys atgyweiriadau i'r system amddiffyn rhag erydu presennol, cael gwared ar goed risg uchel o lannau'r cwrs dŵr, a rhoi amddiffyniad rhag erydu pellach ar waith i **wella sefydlogrwydd y cwrs dŵr a lleihau'r risg o falurion yn mynd i mewn i Nant Cae-Dudwg**, gan achosi erydu pellach a malurion yn symud tuag at y cwlfer gerllaw Heol Pant Du.

Yn ogystal â hyn, hwylusodd y cynllun y gwaith o osod ramp mynediad i'r safle, i wella cynnal a chadw'r cwrs dŵr yn y dyfodol.

Buddion y Cynllun



Lleihau perygl llifogydd ar gyfer **14 eiddo**




Lleihau'r perygl y bydd malurion yn mynd i mewn i'r cwrs dŵr ac yn symud tuag at y cwlfer i lawr yr afon.



Gwell amddiffyniad rhag erydu ar hyd y cwrs dŵr.



Gwell mynediad cynnal a chadw at y mecanwaith rheoli malurion i fyny'r afon



Gwella cydnheredd hirdymor y cwrs dŵr a'r cwlfer i lawr yr afon.



Lleihau perygl o rwystrau i'r cwlfer i lawr yr afon.